Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2017**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol ym maestref Casnewydd yw Greenfields. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae'r holl blant yn derbyn gofal, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt anghenion addysgol arbennig neu gynllun iechyd a gofal. Mae pum disgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Ymgymerodd y pennaeth presennol â rôl pennaeth dros dro yn Hydref 2015, ac fe'i penodwyd yn barhaol yn Ionawr 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad a dysgu disgyblion. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol iawn.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Maent wedi sefydlu ffiniau clir. Ychydig iawn o achosion o ataliad corfforol a gafwyd yn yr ysgol.

Mae gan bob disgybl lwybr dysgu unigol sy'n gweddu i'w diddordebau a'u hanghenion yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn dilyn cyrsiau mewn cerddoriaeth, celf ac astudiaethau'r tir. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb a chynnydd disgyblion ar y lleoliadau hyn yn drylwyr iawn.

Mae'r adeiladau'n darparu amgylchedd dysgu priodol. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn ddeniadol ac yn gwella dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cynnal asesiadau risg trylwyr ar gyfer gweithgareddau yn yr ysgol ac oddi ar y safle, gan gynnwys defnyddio ystafelloedd arbenigol a thrin ymlusgiaid yn yr ystafell wyddoniaeth. Mae asesiadau risg ar gyfer disgyblion unigol yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu yn ddiweddar. Mae'r ddogfen hon yn fanwl ac arfarnol.

## Meysydd i'w datblygu

Er bod gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau, mae'r rhain yn rhy fanwl mewn llawer o achosion. O ganlyniad, nid yw'n hawdd nodi pwyntiau allweddol.

Mae'r ysgol yn craffu ar lyfrau'n rheolaidd i fonitro ansawdd y marcio a'r targedau a osodir. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn ddigon da i fonitro nac arfarnu ansawdd yr addysgu na chynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Er bod yr ysgol yn datblygu ei hunanarfarnu yn dda, cyfyngedig yw rhan athrawon yn y broses.

Nid yw rheolwyr yn defnyddio'r prosesau hunanarfarnu a gwella ysgol yn ddigon da i flaenoriaethu meysydd allweddol i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Gwella prydlondeb yr holl ddisgyblion

A2 Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd, er enghraifft arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rheolwyr i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A3 Cynnwys pob un o'r staff a'r rhanddeiliaid yn y broses hunanarfarnu

A4 Nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, gyda chamau gweithredu penodol a graddfeydd amser priodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau defnyddiol i wella prydlondeb disgyblion yn y boreau. Maent yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion unigol bob dydd, ac yn arfarnu'r data hwn i nodi tueddiadau. Maent yn cysylltu'n rheolaidd â staff gofal pan fydd disgyblion yn hwyr yn gyson.

O ganlyniad, bu gwelliant cyffredinol ym mhrydlondeb disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion yn cyrraedd ar ôl dechrau gwersi o hyd, ac fe gaiff hyn effaith ar eu dysgu.

**Argymhelliad 3: Cynnal rhaglen reolaidd o arsylwadau gwersi sy'n cynnwys ffocws clir ar addysgu a dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhaglen o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu rheolaidd. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd yr addysgu ac yn rhoi cyngor buddiol i staff unigol ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar y cynnydd a wna disgyblion.

Nid yw'r ysgol yn dadansoddi'r wybodaeth o arsylwadau gwersi'n ddigon da i nodi meysydd i'w datblygu neu lywio gwelliant yr ysgol.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod y cofnod canolog unigol o wiriadau cyn-cyflogaeth yn cynnwys y dyddiadau y cynhaliwyd y gwiriadau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r cofnod canolog unigol o wiriadau cyn-cyflogaeth yn cynnwys y dyddiadau y cynhaliwyd y gwiriadau.

**Argymhelliad 5: Cadw cofnod o hyfforddiant staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion manwl o'r hyfforddiant a gaiff staff. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyrsiau a hyfforddiant ar-lein.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Greenfields |
| **Rhif yr ysgol** | 6806005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 07/11/2016 |
| **Perchennog** | Greenfields Care |
| **Staff** | 1 pennaeth/cydlynydd anghenion addysgol arbennig, 1 dirprwy bennaeth, 2 athro, 1 athro asiantaeth, 1 ymgynghorydd gyrfaoedd ac 1 cynorthwyydd gweinyddol/derbynnydd |
| **Nifer y disgyblion** | 5 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd, yn gysylltiedig â chartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/10/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 05/10/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 00/00/00 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Ann Dackevych | Arolygydd Cofnodol |